

Readings for 18th December

Collect

God our redeemer, you prepared the Blessed Virgin Mary to be the mother of your Son: grant that, as she looked for his coming as our saviour, so we may be ready to greet him when he comes again as our judge; who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Amen.

A reading from Isaiah (7.10-16)

The Lord spoke to Ahaz, saying, 'Ask a sign of the Lord your God; let it be deep as Sheol or high as heaven.'

But Ahaz said, 'I will not ask, and I will not put the Lord to the test.'

Then Isaiah said: 'Hear then, O house of David! Is it too little for you to weary mortals, that you weary my God also? Therefore the Lord himself will give you a sign. Look, the young woman is with child and shall bear a son, and shall name him Immanuel. He shall eat curds and honey by the time he knows how to refuse the evil and choose the good. For before the child knows how to refuse the evil and choose the good, the land before whose two kings you are in dread will be deserted.'

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Psalm 80. 1-8, 18-20

1 Hear, O Shepherd of Israel, you that led Joseph like a flock;

2 Shine forth, you that are enthroned upon the cherubim, before Ephraim, Benjamin and Manasseh.

3 Stir up your mighty strength, and come to our salvation.

4 Turn us again, O God; show the light of your countenance and we shall be saved.

5 O Lord God of hosts, how long will you be angry at your people's prayer?

6 You feed them with the bread of tears; you give them abundance of tears to drink.

7 You have made us the derision of our neighbours, and our enemies laugh us to scorn.

8 Turn us again, O God of hosts; show the light of your countenance and we shall be saved.

18 Let your hand be upon the man at your right hand, the son of man you made so strong for yourself.

19 And so will we not go back from you; give us life, and we shall call upon your name.

20 Turn us again, O Lord God of hosts; show the light of your countenance, and we shall be saved.

A reading from Romans (1.1-7)

Paul, a servant of Jesus Christ, called to be an apostle, set apart for the gospel of God, which he promised beforehand through his prophets in the holy scriptures, the gospel concerning his Son, who was descended from David according to the flesh and was declared to be Son of God with power according to the spirit of holiness by resurrection from the dead, Jesus Christ our Lord.

Through Christ we have received grace and apostleship to bring about the obedience of faith among all the Gentiles for the sake of his name, including yourselves who are called to belong to Jesus Christ, To all God's beloved in Rome, who are called to be saints: Grace to you and peace from God our Father and the Lord Jesus Christ.

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

Listen to the Gospel of Christ according to St Matthew (1.18-25)

Glory to you, O Lord.

Now the birth of Jesus the Messiah took place in this way. When his mother Mary had been engaged to Joseph, but before they lived together, she was found to be with child from the Holy Spirit.

Her husband Joseph, being a righteous man and unwilling to expose her to public disgrace, planned to dismiss her quietly, but just when he had resolved to do this, an angel of the Lord appeared to him in a dream and said, 'Joseph, son of David, do not be afraid to take Mary as your wife, for the child conceived in her is from the Holy Spirit. She will bear a son, and you are to name him Jesus, for he will save his people from their sins.'

All this took place to fulfil what had been spoken by the Lord through the prophet: 'Look, the virgin shall conceive and bear a son, and they shall name him Emmanuel', which means, 'God is with us.'

When Joseph awoke from sleep, he did as the angel of the Lord commanded him; he took her as his wife, but had no marital relations with her until she had borne a son; and he named him Jesus.

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

Post Communion Prayer

Heavenly Father, you chose the Blessed Virgin Mary to be the mother of the promised saviour: fill us your servants with your grace, that in all things we may embrace your holy will and with her rejoice in your salvation; through Jesus Christ our Lord.

Amen.

Darlleniadau ar gyfer Rhagfyr 18fed

Colect

Dduw ein gwaredwr, a roddaist y Forwyn Fair Fendigaid i fod yn fam i'th Fab: caniatâ, fel y bu iddi hi ddisgwyl ei ddyfodiad yn iachawdwr arnom, y bydd i ninnau fod yn barod i'w gyfarch pan ddaw drachefn yn farnwr arnom: yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân yn un Duw, yn awr ac am byth.

Amen.

Darlleniad o Eseia (7.10-16)

Llefarodd yr Arglwydd eto wrth Ahas, a dweud, "Gofyn am arwydd gan yr Arglwydd dy Dduw, arwydd o ddyfnder Sheol neu o uchder nefoedd." Ond atebodd Ahas, "Ni ofynnaf, ac nid wyf am osod yr Arglwydd ar brawf."

Dywedodd yntau, "Gwrandewch yn awr, tŷ Dafydd. Ai peth bach yn eich golwg yw trethu amynedd pobl, a'ch bod am drethu amynedd fy Nuw hefyd? Am hynny, y mae'r Arglwydd ei hun yn rhoi arwydd i chwi: Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel. Bydd yn bwyta menyn a mêl pan ddaw i wybod sut i wrthod y drwg a dewis y da. Cyn i'r plentyn wybod sut i wrthod y drwg a dewis y da, fe ddifrodir tir y ddau frenin yr wyt yn eu hofni.

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Salm 80. 1-7. 17-19

1 Gwrando, O fugail Israel, sy'n arwain Joseff fel diadell.

2 **Ti sydd wedi dy orseddu ar y cerwbiaid, disgleiria i Effraim, Benjamin a Manasse. Gwna i'th nerth gyffroi, a thyrd i'n gwaredu.**

3 Adfer ni, O Dduw; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.

4 **O Arglwydd Dduw y Lluoedd, am ba hyd y byddi'n ddig wrth weddïau dy bobl?**

5 Yr wyt wedi eu bwydo â bara dagrau, a'u diodi â mesur llawn o ddagrau.

6 **Gwnaethost ni'n ddirmyg i'n cymdogion, ac y mae ein gelynyon yn ein gwawdio.**

7 O Dduw'r Lluoedd, adfer ni; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.

17 **Ond bydded dy law ar y sawl sydd ar dy ddeheulaw, ar yr un yr wyt ti'n ei gyfnerthu.**

18 Ni thrown oddi wrthyt mwyach; adfywia ni, ac fe alwn ar dy enw.

19 **Arglwydd Dduw y Lluoedd, adfer ni; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.**

Darlleniad o Rufeiniaid (1.1-7)

Paul, gwas Crist Iesu, sy'n ysgrifennu, apostol trwy alwad Duw, ac wedi ei neilltuo i wasanaeth Efengyl Duw. Addawodd Duw yr Efengyl hon ymlaen llaw trwy ei broffwydi yn yr Ysgrifurau sanctaidd, Efengyl am ei Fab: yn nhrefn y cnawd, ganwyd ef yn llinach Dafydd; ond yn nhrefn sanctaidd yr Ysbryd, cyhoeddwyd ef yn Fab Duw, â mawr allu, trwy atgyfodiad o farwolaeth. Dyma Iesu Grist ein Harglwydd.

Trwyddo ef derbyniasom ras a swydd apostol, i ennill, ar ei ran, ffydd ac ufudd-dod ymhlith yr holl Genhedloedd. Ymhlith y rhain yr ydych chwithau, yn rhai wedi eich galw ac yn eiddo i Iesu Grist.

Yr wyf yn cyfarch pawb yn Rhufain sydd yn annwyl gan Dduw, a thrwy ei alwad ef yn saint. Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew (1.18-25) Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddïo i Joseff, cyn iddynt ddod at ei gilydd fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân. A chan ei fod yn ddyn cyfiawn, ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei gollwng ymaith yn ddirgel.

Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau."

A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd: "Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel", hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni".

A phan ddeffrôdd Joseff o'i gwsg, gwnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi gorchymyn, a chymryd Mair yn wraig iddo. Ond ni chafodd gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Gweddi ar ol y Cymun

Dad nefol, a ddewisaist y Forwyn Fair Fendigedig i fod yn fam y gwaredwr a addawyd, llanw ni dy weision â'th ras, fel y gallwn ym mhob peth dderbyn dy ewyllys sanctaidd a llawenhau gyda hi yn dy iachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Amen.